***CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED MANGRE: FFERM CWM CAYO, GWEHELOG, BRYNBUGA, NP15 1HS***

Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 rhaid i'r Awdurdod Lleol gyhoeddi ar eu gwefan fanylion y cais uchod am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod y gwneir y cais. a dderbyniwyd.

Rhaid i'r ymgeisydd arddangos hysbysiad yn y fangre am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol. Rhaid i'r hysbysiad, ym mhob achos, gael ei arddangos yn amlwg yn y fangre y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu ynddi, lle y gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r fangre ac yn achos mangre sy'n gorchuddio arwynebedd o fwy na hanner can metr sgwâr, hysbysiad pellach ar yr un ffurf ac yn ddarostyngedig i'r un gofynion bob hanner can metr ar hyd perimedr allanol yr eiddo sy'n ffinio ag unrhyw briffordd; Rhaid i'r Hysbysiad sydd i'w arddangos ar y safle fod: o faint cyfartal neu fwy nag A4, o liw glas golau, wedi'i argraffu'n ddarllenadwy mewn inc du neu wedi'i deipio mewn du mewn ffont o faint sy'n hafal i neu'n fwy na 16;

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd osod Hysbysiad yn y Papur-Newydd Lleol o leiaf unwaith o fewn 10 diwrnod gwaith yn cychwyn y diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud i'r Awdurdod trwyddedu.

Mae Remarkable Events LLP yn gwneud cais am Drwydded Safle Dros Dro ar Fferm Cwm Cayo, Gwehelog, Brynbuga, ar gyfer 18 Gorffennaf 2024 i 22 Gorffennaf 2024

Mae'r Drwydded, os caiff ei chaniatáu, er mwyn galluogi'r Gweithgareddau Canlynol i ddigwydd:

Adloniant Rheoledig a Gwerthu Alcohol ar ac oddi ar y safle.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cais hwn wneud hynny drwy ysgrifennu at yr Adain Drwyddedu, Cyngor Sir Fynwy, Canolfan Addysg Gymunedol y Fenni, Hen Ffordd Henffordd, Y Fenni. Gellir cyflwyno sylwadau am 28 diwrnod yn olynol o ddyddiad yr Hysbysiad hwn.

Cedwir copi o'r cais am ganiatáu'r drwydded uchod gan yr Adain Drwyddedu. Gellir gweld y cais o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm a dydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm, ac eithrio diwrnodau Gŵyl y Banc, yn Hybiau'r Cyngor/Neuadd y Sir, Brynbuga, drwy drefnu hyn o flaen llaw yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod. Mae copi o'r cais hefyd ar gael i'w weld ar-lein www.monmouthshire.gov.uk/cy.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn cysylltiad â chais. Mae'r ddirwy y mae person yn talu ar gollfarn ddiannod am y drosedd yn ddiderfyn.

Dyddiedig: 17eg Mai 2024